| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD** | 13 Tachwedd 2025 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor GwE am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Datganiad o'r Cyfrifon GwE ôl-archwiliad;<br>• Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Sylwadau. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2024/25, ac awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i lofnodi'r llythyr sylwadau ar gyfer GwE. |
| **AWDUR** | Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

1.1 Bu i GwE, sef Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ddod i ben 31 Mai 2025, o ganlyniad nid oedd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod ar ôl y dyddiad yma. Cyngor Gwynedd yw'r cyngor lletyol sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE, ac felly mae cyfrifon 2024/25 a 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd i'w cymeradwyo.

1.2 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.3 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.4 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor GwE yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

## 2. CYFRIFON 2024/25

2.1 Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw GwE am 2024/25 i gyfarfod 21 Mai 2025 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad "alldro".

2.2 Fe ryddhawyd y Datganiad o’r Cyfrifon GwE am 2024/25 (yn amodol ar archwiliad) i’r Archwilwyr gan hefyd eu rhoi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 30 Mehefin 2025, ond gan fod GwE eisoes wedi dod i ben ar 31 Mai 2025, nid oedd modd ei gyflwyno i’r Cyd-Bwyllgor.

## 3. ARCHWILIAD

Mae’r cyfrifon wedi bod yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru dros y misoedd diwethaf, a cyflwynir yma adroddiad ‘ISA260’ gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler ar dudalen 5 o’r adroddiad ei fod yn nodi “barn ddiamod ar y cyfrifon” ar gyfer 2024/25.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2024/25

Cyflwynir yma Ddatganiad o’r Cyfrifon GwE am 2024/25 (yn dilyn archwiliad). Mae’r materion a godwyd fel rhan o’r archwiliad wedi’u hamlinellu yn Atodiad 2 i’r adroddiad ‘ISA260’ cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo’r –**

- Adroddiad ‘ISA260’ gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o’r Cyfrifon GwE 2024/25 (yn dilyn archwiliad)

## 6. LLYTHYR SYLWADAU

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ymofyn i’r person sy’n llywyddu’r cyfarfod, ynghyd â’r Pennaeth Cyllid, ardystio’r Llythyr Sylwadau, yn electronig, wedi i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo’r uchod.

## 7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi’r dystysgrif ar y cyfrifon yn dilyn iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi’i ardystio gan y person sy’n llywyddu’r cyfarfod a’r Pennaeth Cyllid,